Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Gymunedol Gwelfor, Caergybi

Cyfeiriad

Canolfan Gymunedol
Gwelfor,
Ffordd Tudur,
Caergybi,
LL65 2DH

Oriau Agor

Dydd Llun – Dydd Gwener 09:00 - 17:00

Mae map a gwybodaeth ychwanegol ar y dudalen nesaf

Pwysig: canllaw yn unig yw'r cyfarwyddiadau, gwiriwch eich llwybr cyn teithio

Mewn car

Dilynwch yr A55 ar draws Ynys Môn i Gaergybi. Pan fyddwch yn cyrraedd Caergybi, dilynwch yr arwyddion am y Porthladd. Ar y gylchfan ger y fynedfa i'r Porthladd, trowch

i'r dde ac yna yn syth i'r chwith ar Turkey Shore Road. Dilynwch y ffordd hon am tua chwarter milltir, yna trowch i'r dde ar Ffordd Tudur (y 4ydd troad ar y dde). Dilynwch y ffordd hon ac yna cymryd y troad cyntaf i'r chwith i faes parcio Gwelfor.

Parcio

Mae maes parcio ar gael yn y Ganolfan Gymunedol, ac mae rhywfaint o le parcio i bobl anabl union y tu allan i'r fynedfa.

Ar y bws

Gallwch ddal bws 24A o Victoria Road, a bydd yn stopio y tu allan i'r Ganolfan Gymunedol. Dylai gymryd tua 5 munud i chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0808 178 8115

Bydd eich asesiad PIP yng Nghanolfan Gymunedol Gwelfor, Caergybi



Data'r map ©2022 Google

Ar y trên

Gorsaf Caergybi yw'r orsaf drenau agosaf. Bydd yn cymryd tua 15 munud i chi gerdded o'r orsaf honno i'r Ganolfan Gymunedol. Ewch allan o'r orsaf a cherdded tuag at London Road.

Trowch i'r chwith a cherdded ar hyd London Road, a throi i'r chwith eto ar yr A55 gyferbyn â Lidl. Ewch yn eich blaen i lawr yr A55 nes byddwch yn cyrraedd cylchfan.

Trowch i'r dde wrth ymyl The Edinburgh Castle a chroesi ar Turkey Shore Road. Dilynwch y ffordd hon yr holl ffordd a throi i'r dde am Ffordd Tudor. Ewch i lawr y ffordd hon a bydd y Ganolfan Gymunedol ar y chwith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0808 178 8115

Pan fyddwch chi'n cyrraedd

Cofiwch ddod â dau fath o ID gyda chi.

Mae'r drws wedi cau fel arfer, a gall fod yn anodd ei agor. Canwch y gloch os bydd angen help arnoch chi.

Gall swyddog diogelwch eich helpu gyda'r drws.

Rhowch wybod i staff y dderbynfa eich bod wedi cyrraedd, ac arhoswch yn y man aros.

Gwybodaeth Ddefnyddiol

Mae mynediad heb risiau ar gael ar flaen ac ar ochr yr adeilad, ac mae digon o le parcio ger y drws.

Mae'r ystafell asesu tua 20 metr i lawr y coridor.

Mae toiled i bobl anabl y tu allan i'r ystafell asesu.